# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 18 Medi 2014** |
| Amser: | **09.21 – 15.15** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2529**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**David Rees AC (Cadeirydd)**
**Mohammad Asghar (Oscar) AC**
**Alun Davies AC**
**Paul Davies AC**
**John Griffiths AC**
**Elin Jones AC**
**Lynne Neagle AC**
**Gwyn R Price AC**
**Andrew RT Davies AC**
**Kirsty Williams AC**

Tystion:

**Dr Anna Kuczynska, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**
**Charlotte Moar, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**
**Dr Mark Vaughan, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru**
**Dr Nazia Hussain, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol**
**Dr Peter Horvath-Howard, Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru**
**Dr Charles Allanby, Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru**
**Andrew Bell, Yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol**

| | |
|---|---|
| | Sue Evans, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru<br>Mark Drakeford AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Andrew Goodall, Health and Social Services<br>Albert Heaney, Llywodraeth Cymru<br>Dr Ruth Hussey, Llywodraeth Cymru<br>Martin Sollis, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Helen Finlayson (Ail Clerc)<br>Sian Giddins (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Amy Clifton (Ymchwilydd)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**
Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Ymchwiliad i'r cynnydd a wnaed hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru: trafod yr adroddiad drafft

1.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar ei ymchwiliad i'r cynnydd a wnaed hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni Canser Llywodraeth Cymru a chytunodd arno, yn amodol ar fân newidiadau. Cytunodd hefyd ar y dull a gaiff ei ddefnyddio i lansio'r adroddiad.

## 2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rebecca Evans, Leighton Andrews, Darren Millar, Janet Finch-Saunders a Lindsay Whittle. Roedd Alun Davies, John Griffiths, Mohammad Asghar, Andrew RT Davies (bore yn unig) a Paul Davies AC (prynhawn yn unig) yn dirprwyo ar eu rhan.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor y canlynol:

- cofnodion cyfarfod 16 Gorffennaf; a
- gohebiaeth a gafwyd gan y Gweinidog ynghylch: Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru; yr Adolygiad o Fuddsoddiad mewn Addysg i Weithwyr Iechyd Proffesiynol; Cynllun Cyflawni Canser Llywodraeth Cymru; a'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Strôc.

## 4 Ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 17

4.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Anthony Tracey.

4.2 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.

## 5 Ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 18

5.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.

## 6 Ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 19

6.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan David Williams.

6.2 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.

6.3 Cytunodd Sue Evans i roi gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor ynghylch cryfderau a gwendidau'r ymgyrch '3 miliwn o fywydau' yn Lloegr, sef yr ymgyrch y cyfeirir ato yng nghyflwyniad ysgrifenedig Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i'r Pwyllgor.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 8, 10 a 11

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru: trafod y dystiolaeth a gafwyd

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd ar gyfer yr ymchwiliad.

8.2 Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am wybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Feddygol Prydain a Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu am faint o gyllid refeniw sydd ei angen, er enghraifft ar gyfer talu costau hyfforddiant, yn ogystal â gwariant cyfalaf, wrth gyflwyno technolegau newydd.

## 9 Sesiwn graffu gyffredinol a chyllidol gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd

9.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan y Dirprwy Weinidog Iechyd.

9.2 Ymatebodd y Gweinidog i gwestiynau gan Aelodau.

9.3 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth am gynllun recriwtio Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ar gyfer y 100 o barafeddygon ychwanegol a ariannwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol – y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd: trafod yr adroddiad drafft

10.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd, a chytunodd arno.

## 11 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon"): trafod y deithlen ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu

11.1 Cytunodd y Pwyllgor ar deithlen ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu mewn perthynas â'r ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon").